# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 14 CHWEFROR 2024

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: S.K.Hunt, S.A.Knoyle, N.Jenkins, S.Harris, J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths, S.Jones a/ac C.Phillips

**Swyddogion yn bresennol:**

K.Jones, N.Pearce, A.Jarrett, A.Thomas, N.Daniel, H.Jones, C.Griffiths, S.Rees, D.Griffiths, B.Griffiths, A.Spooner-Cleverly, L.McAndrew, P.Chivers a/ac T.Davies

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr Aelodau canlynol ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S K Hunt | Cofnod rhif 6 - Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU - Cymeradwyo Prosiectau, gan fod un o'r ymgeiswyr yn ymwneud â'r Prosiect Beiciau Cymunedol, ac mae'n Is-gadeirydd/Trysorydd yr ymgeisydd (Cyfeillion Blaendulais). Teimlodd y Cynghorydd Hunt fod y cysylltiad |

| | |
|---|---|
| | hwn yn rhagfarnol, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a'r bleidlais wedi hynny. |
| Y Cynghorydd S Harris | Cofnod rhif 12 - Arian Grant y Trydydd Sector – Dyfarnu Grantiau ar gyfer 2024-25 - Gan ei bod yn Gadeirydd Ffrindiau Creunant, a grybwyllir yn yr adroddiad. |
| Y Cynghorydd W F Griffiths | Cofnod rhif 12 - Arian Grant y Trydydd Sector – Dyfarnu Grantiau ar gyfer 2024-25 - Gan ei fod yn Aelod o Glwb Bocsio'r Bulldogs, a grybwyllir yn yr adroddiad. |
| Y Cynghorydd S Jones | Cofnod rhif 12 - Arian Grant y Trydydd Sector – Dyfarnu Grantiau ar gyfer 2024-25 - Gan ei fod yn Ymddiriedolwr Hamdden Cymunedol Cwm Afan (Pwll Nofio'r Cymer), a grybwyllir yn yr adroddiad. |
| Y Cynghorydd S Knoyle | Cofnod rhif 12 - Arian Grant y Trydydd Sector – Dyfarnu Grantiau ar gyfer 2024-25 - Gan ei fod yn aelod o fwrdd Canolfan Hyfforddi Glyn-nedd, a grybwyllir yn yr adroddiad. |

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Cabinet, a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2024, yn cael eu derbyn fel cofnod cywir.

## 5. PUBLIC QUESTION TIME

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 6. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU - CYMERADWYO PROSIECTAU

Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, ailbwysleisiodd y Cynghorydd S K Hunt ei gysylltiad â'r mater hwn, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a’r bleidlais wedi hynny. Trosglwyddwyd yr awenau i'r Cynghorydd A Llewelyn a aeth ati i gadeirio'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig.

**Penderfynwyd:**

Cymeradwyo'r prosiectau canlynol, a gyflwynwyd o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU Castell-nedd Port Talbot, Cronfa Grantiau Trydydd Parti, Cronfa Twf Cymunedau Cynaliadwy, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd -

1) Canolfan Maerdy - Prosiect Peilot Galw am Reid Dyffryn Aman
2) Canolfan Maerdy - Hyfforddiant a Gwasanaethau Gwaith Ieuenctid yn y Gymuned
3) Cyfeillion Blaendulais - Prosiect Beiciau Cymunedol

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi Cyngor Castell-nedd Port Talbot i roi Cynllun Gweithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar waith a dweud wrth ymgeiswyr am y penderfyniad ariannu.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

7. **ARCHWILIO CYMRU – LLAMU YMLAEN – RHEOLI GWEITHLU’N STRATEGOL – CYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

Ailymunodd y Cynghorydd S K Hunt â'r cyfarfod a dychwelodd at rôl y Cadeirydd.

**Penderfynwyd:**

Cymeradwyo ymateb y Cyngor i'r adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru - Llamu Ymlaen: Rheoli Gweithlu’n Strategol - Castell-nedd Port Talbot fel y manylir yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Er mwyn galluogi'r Cyngor i roi'r trefniadau angenrheidiol ar waith i gefnogi darparu'r Cynllun Gweithlu Strategol yn effeithiol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **TENDRO BYSUS LLEOL**

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

9. **PENDERFYNIADAU A WNAED DRWY GAMAU GWEITHREDU BRYS**

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

10. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

11. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD**: Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, fod y cyhoedd yn cael eu gwahardd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

12. **GRANTIAU TRYDYDD SECTOR – DYFARNU GRANTIAU AR GYFER 2024-2025 (WEDI'U HEITHRIO O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfynwyd:**

Cymeradwyo dyrannu'r cyllid i'r sefydliadau Trydydd Sector, fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo grantiau i sefydliadau'r trydydd sector yn unol â Chynllun y cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**